Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Newid y wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu am blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl



Medi 2025

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Ymgynghoriad Data Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**




Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, neu i gael y ddogfen yma mewn fformat gwahanol, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.llyw.cymru/data-i-fonitror-system-anghenion-dysgu-ychwanegol-ady

**Ebost:** YmgynghoriadCasgliadauDataYsgolion@llyw.cymru

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthym ni beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei ddeall hon, cliciwch yma. Rhif trwydded Photosybols 403527247

# Cynnwys


**Am yr ymgynghoriad yma....4**

Pam mae angen i ni wneud newidiadau?....7

Beth sydd yn yr ymgynghoriad yma....9

**Pa wybodaeth newydd sydd yn gallu cael ei chasglu .... 11**

Preifatrwydd a hawliau plentyn....15

**Sut i ddweud wrthyn ni beth rydych chi’n ei feddwl....... 16**

**Cwestiynau.... 17**

# Am yr ymgynghoriad yma

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ni ydy Llywodraeth Cymru.



Ymgynghoriad ydy hwn. Ymgynghoriad  ydy pan fyddwn ni’n gofyn i bobl beth maen nhw’n feddwl fel eu bod yn gallu cael dweud eu dweud.



Mae’r ymgynghoriad yma am yr wybodaeth rydyn ni’n ei chasglu am ADY.




Mae ADY yn sefyll am Anghenion Dysgu Ychwanegol.




Mae hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth am:

- plant a phobl ifanc ag ADY
- ysgolion



Rydyn ni’n casglu gwybodaeth gan ysgolion a chynghorau am lawer o wahanol bethau.



Ystyr cynghorau ydy llywodraeth leol - y bobl sy’n rhedeg gwasanaethau yn eich ardal chi.

Rhaid i ni gasglu’r wybodaeth yma yn ôl y gyfraith. Mae’r wybodaeth rydyn ni’n ei chasglu yn cael ei defnyddio i:



- helpu plant a phobl ifanc i gael gwell cymorth



- helpu ysgolion a chynghorau i wneud eu gwaith yn dda



- cynllunio ar gyfer y dyfodol - er enghraifft, ble i wario arian a sut i helpu mwy o blant a phobl ifanc



- gwneud yn siŵr bod pawb yn gwybod beth sy’n digwydd



- sylwi ar broblemau’n gynnar - trwy edrych ar y wybodaeth, rydyn ni’n gallu gweld a oes angen newid rhywbeth



Mae angen i ni newid y wybodaeth rydyn ni’n ei chasglu am ADY.



## Pam mae angen i ni wneud newidiadau?



Rydyn ni wedi bod yn newid y system rydyn ni'n ei defnyddio i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY.




Enw'r hen system oedd anghenion addysgol arbennig neu AAA yn fyr.




Rydyn ni wedi bod yn gwneud newidiadau dros y blynyddoedd diwethaf.




AAA oedd yr hen enw ar beth rydyn ni nawr yn ei alw'n Anghenion Dysgu Ychwanegol - ADY.




Mae'r system ADY ar waith yn llawn o fis Medi 2025.



Mae’r system ADY yn cefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed yng Nghymru gydag ADY.



Mae ADY yn meddwl bod angen help ychwanegol ar rai plant a phobl ifanc i ddysgu oherwydd anghenion penodol. Er enghraifft:

- efallai y byddan nhw’n ei chael hi’n anodd siarad, gwrando, neu ddeall eraill
- efallai y byddan nhw’n ei chael hi’n anodd dysgu, cofio, neu ddeall gwybodaeth
- efallai y byddan nhw’n cael trafferth gyda theimladau, ymddygiad, neu gyd-fynd ag eraill
- efallai y byddan nhw’n cael anawsterau gyda chlywed, gweld, symud, neu ddefnyddio mannau dysgu



Nod y system ADY ydy gwneud yn siŵr bod pob plentyn a pherson ifanc ag ADY yn cael y gefnogaeth maen nhw ei angen i wneud yn dda.



Mae angen i ni newid y wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu i'n helpu i wneud yn siŵr bod y system yn gweithio'n dda.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl.

# Beth sydd yn yr ymgynghoriad yma




Mae'r ymgynghoriad yma am y wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu gan ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a chynghorau bob blwyddyn.



Mae ymgynghoriad yn meddwl gofyn beth rydych chi'n feddwl.



Mae hyn yn cynnwys gwahanol ysgolion a lleoedd lle mae plant a phobl ifanc yn dysgu.



Rydyn ni eisoes yn casglu rhywfaint o wybodaeth am:




- oes gan blentyn neu berson ifanc gynllun cymorth o'r enw Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Mae'r rhain yn disgrifio pa gymorth a chefnogaeth sydd gan blentyn neu berson ifanc ag ADY



- y math o anghenion sydd gan blant a phobl ifanc ag ADY



- staff sy'n darparu cymorth i blant neu bobl ifanc ag ADY




Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am y wybodaeth newydd rydyn ni'n meddwl am ei chasglu.

# Pa wybodaeth newydd sydd yn gallu cael ei chasglu

**Gwybodaeth rydyn ni'n gallu ei chasglu am gefnogaeth plentyn neu berson ifanc:**



- ydy ysgol neu gyngor wedi penderfynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY




- os ydy plentyn neu berson ifanc sy'n byw yn Lloegr ond sy'n mynd i'r ysgol yng Nghymru yn derbyn cymorth ar gyfer eu ADY



- pa fath o anghenion sydd gan blentyn neu berson ifanc (fel help gyda siarad, dysgu, ymddygiad neu anghenion corfforol)



- os ydy plentyn neu berson ifanc yn cael help gan wasanaethau iechyd, fel therapi iaith a lleferydd neu gymorth seicoleg




- oes angen help ar blentyn neu berson ifanc yn Gymraeg ac a ydyn nhw yn ei gael



- ydy plentyn neu berson ifanc yn treulio amser mewn dosbarth arbennig mewn ysgol brif ffrwd. Mae ysgolion prif ffrwd yn darparu addysg i fyfyrwyr o bob gallu



## Gwybodaeth rydyn ni'n gallu ei chasglu am ysgolion:



- faint o ddosbarthiadau arbennig sydd gan ysgol brif ffrwd



- faint o blant neu berson ifanc sy'n cael help mewn dosbarthiadau arbennig



- y swyddi mae Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ei wneud. Rydyn ni'n eu galw'n CADY yn fyr. Mae CADY yn helpu i gefnogi dysgwyr ADY mewn ysgolion



- pa mor gyflym mae ysgolion neu gynghorau yn gwneud penderfyniadau am anghenion plant neu bobl ifanc a'r help y bydd angen iddyn nhw ei gael



- pa mor aml y mae CDU plant neu bobl ifanc yn cael eu hadolygu

**Mae’r wybodaeth yma yn helpu:**



- ysgolion i gynllunio’r cymorth cywir i blant a phobl ifanc



- edrych i weld ydy’r system ADY yn gweithio’n dda



- gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael help yn gyflym




- gweld ydy plant a phobl ifanc yn gallu cael cymorth yn Gymraeg pan fyddan nhw ei angen



Fe fyddwn ni’n gwneud yn siŵr nad ydy’r newidiadau rydyn ni’n eu gwneud yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff yr ysgol.

## Preifatrwydd a hawliau plentyn neu berson ifanc



Mae'r holl wybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel ac yn ddiogel.




Pan fydd adroddiadau'n cael eu cyhoeddi, does neb yn gallu dweud am ba blant y mae'r wybodaeth yn ymwneud â nhw.



Mae cyhoeddi yn meddwl rhannu gyda'r cyhoedd.




Rydym yn dilyn deddfau Diogelu Data'r DU wrth gasglu gwybodaeth.



Rydych chi'n gallu gweld mwy o wybodaeth am y data rydyn ni'n ei gasglu am blant a phobl ifanc mewn ysgolion, beth rydyn ni'n ei wneud ag ef a pham, yn ein Hysbysiad preifatrwydd.

# Sut i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl




Anfonwch eich atebion i ni erbyn **Dydd Mercher 3 Rhagfyr 2025**.



Rydych chi'n gallu ateb y cwestiynau yn y ffurflen yma a'i hanfon drwy e-bost at: YmgynghoriadCasgliadauDataYsgolion@llyw.cymru



Rydych chi'n gallu ysgrifennu i ni yn:

Tîm Polisi ADY

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ



Gofynnwch i ni os ydych chi eisiau gwybodaeth hawdd ei ddeall am sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol.

# Cwestiynau

**Cwestiwn 1: Ar dudalennau 11 ac 12 rydyn ni'n sôn am wybodaeth rydyn ni'n gallu ei chasglu am gefnogaeth plentyn neu berson ifanc:**



- ydy'r ysgol neu'r cyngor wedi penderfynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY



- os ydy plentyn neu berson ifanc sy'n byw yn Lloegr ond sy'n mynd i'r ysgol yng Nghymru yn derbyn cymorth ar gyfer eu ADY
- pa fath o anghenion sydd gan blentyn neu berson ifanc (fel help gyda siarad, dysgu, ymddygiad neu anghenion corfforol)



- os ydy plentyn neu berson ifanc yn cael help gan y gwasanaethau iechyd



- oes angen help ar blentyn neu berson ifanc yn Gymraeg ac ydyn nhw'n ei gael
- ydy plentyn neu berson ifanc yn treulio amser mewn dosbarth arbennig mewn ysgol brif ffrwd



**Oes gennych chi unrhyw sylwadau am wybodaeth rydyn ni'n gallu ei chasglu am gymorth plentyn neu berson ifanc?**

**Cwestiwn 2: Ar dudalen 13 rydyn ni'n siarad am wybodaeth rydyn ni'n gallu ei chasglu am ysgolion:**



- faint o ddosbarthiadau arbennig sydd gan ysgol

- faint o blant a phobl ifanc sy'n cael help mewn dosbarthiadau arbennig



- y swyddi y mae CADY yn eu gwneud

- pa mor gyflym mae ysgolion neu gynghorau yn gwneud penderfyniadau am anghenion plant neu bobl ifanc a'r help y bydd angen iddyn nhw ei gael



- pa mor aml mae CDU plant neu bobl ifanc yn cael eu hadolygu




**Oes gennych chi unrhyw sylwadau am wybodaeth rydyn ni'n gallu ei chasglu am ysgolion?**



**Cwestiwn 3: A oes unrhyw wybodaeth arall rydych chi'n meddwl bod angen i ni ei chasglu i:**

- helpu i wella cefnogaeth i blant a phobl ifanc ag ADY?
- deall yn well pa mor dda mae'r system ADY yn gweithio?


OGL © Hawlfraint y Goron 2025 WG52968